HYDREF

YSGOL CALON CYMRU

# CYLCHLYTHYR

## Croeso!

Mae wedi bod yn dymor prysur iawn arall yn Ysgol Calon Cymru ac mae'n bleser mawr gennyf rannu cylchlythyr y Chweched Dosbarth gyda chi; cylchlythyr gyda'r nod o roi mewnwelediad i chi i rai o'r amrywiaeth eang o weithgareddau, digwyddiadau, a dathliadau sy'n digwydd yn yr ysgol. Mae rhywbeth ar gael i bawb ac rydym wrth ein bodd gweld cymaint o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfle i ymgysylltu â bywyd ehangach yr ysgol.

Mae myfyrwyr Blwyddyn 12 wedi setlo'n dda i'w hastudiaethau ac yn magu hyder gyda gofynion gwersi'r Chweched Dosbarth. Mae Blwyddyn 13 yn ystyried eu llwybrau ôl-18, trwy gynnif am gyrsiau prifysgol a phrentisiaethau. Maent wedi bod yn gweithio'n galed ar eu Datganiadau Personol ac yn sicrhau eu bod yn rhoi digon o dystiolaeth i gyfiawnhau eu cymhwyster ar gyfer astudio eu cyrsiau dewisol. Rydym yn annog yn weithredol y myfyrwyr i gwblhau lleoliadau gwaith gwirfoddol, perthnasol, naill ai'n wythnosol (os yw eu hamserlen yn caniatáu hyn) neu yn ystod y gwyliau i gefnogi eu gyrfaoedd dewisol yn y dyfodol. Mae myfyrwyr blynyddoedd 12 a 13 wedi bod yn treulio penwythnosau'n mynychu Diwrnodau Agored prifysgolion a bydd mwy o gyfleoedd ar gael y flwyddyn nesaf. Edrychwch ar wefannau prifysgolion i gael y dyddiadau hyn. Mae'r ymchwil hwn yn werthfawr er mwyn ffurfio dewisiadau gwybodus am yrfaoedd ac addysg uwch.

Bydd y myfyrwyr i gyd yn cael cymorth i baratoi ar gyfer eu harholiadau ffug ym mis Ionawr 2024. Maer'n hanfodol bod y myfyrwyr i gyd yn dechrau ar eu proses adolygu'n gynnar, a'u bod o ddifrif ynglŷn â'r arholiadau ffug er mwyn hysbysu staff a myfyrwyr am unrhyw fylchau yn eu gwybodaeth, a strategaethau i wella techneg arholiad yn y dyfodol.

Hoffwn ddymuno Nadolig pleserus a heddychlon i chi a Blwyddyn Newydd Dda.

Lizzie Tiernan
Pennaeth y Chweched Dosbarth

## DYDDIADAU'R TYMOR

**Tymor yr Hydref**
Dydd Llun 4 Medi i Ddydd Gwener 27 Hydref

Hanner Tymor
Dydd Llun 30 Hydref i Ddydd Gwener 3 Tachwedd

Dydd Llun 6 Tachwedd i Ddydd Gwener 22 Rhagfyr

Nadolig
Dydd Llun 25 Rhagfyr i Ddydd Llun 9 Ionawr

**Dyddiau Heb Ddisgyblion:**
**Dydd Gwener 22ain Rhagfyr**
**Dydd Llun 8fed Ionawr**

Ein gweledigaeth yw paratoi disgyblion ar gyfer llwybrau eu dyfodol gyda chyngor a chefnogaeth gyrfaol heb ei ail, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i ychwanegu at eu datganiadau personol, fel bo gan ein disgyblion y cyfle gorau i lwyddo yn eu ceisiadau yn y dyfodol. Rydym yn dal i gydweithio gyda chyflogwyr i roi cyngor beirniadol i fyfyrwyr, a chefnogaeth gyda lleoliadau gwaith, cyfweliadau ffug a swyddi preswyl. Er mwyn llwyddo yn CA5, rhaid pontio'r bwlch rhwng TGAU a Safon Uwch, er mwyn sicrhau trawsnewidiad llyfn er mwyn datblygu dysgwyr uchelgeisiol, annibynnol, a medrus. Dyluniwyd addysgeg CA5 i drwytho diwylliant rhagweithiol a dysgu annibynnol yn y myfyrwyr trwy ysbrydoli a herio gwersi, ac felly'n annog dysgwyr i gyflawni eu potensial. Mae hyn yn rhywbeth rydym yn parhau i'w ddatblygu trwy gyfrwng ein haddysgu a dysgu wrth symud ymlaen.

# Cyfarfod y Tîm

## Staff Chweched Dosbarth YCC



Lizzie Tiernan – Pennaeth y Chweched Dosbarth– tiernane5@hwbcymru.net



Ffion Price- Dirprwy Bennaeth y Chweched Dosbarth–

pricef146@hwbcymru.net



Lia Price - Rheolwr y Chweched Dosbarth – pricel466@hwbcymru.net

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda strwythur staff newydd yn y flwyddyn academaidd nesaf yn y Chweched Dosbarth. Ein nod yw datblygu diwylliant o un Chweched Dosbarth yn YCC, gan anelu fod yn llwyddiannus wrth i ni symud ymlaen a pharhau i gadw a recriwtio myfyrwyr.

# Llwyddiant Myfyrwyr

## Pêl Droed




Llongyfarcvhiadau i Arwyn Walby, myfyriwr Blwyddyn 12. Yn gynnyrch Dan 18 Clwb Pêl Droed Henffordd, mae'n ymuno â Chlwb Pêl Droed Bechgyn Henffordd y tymor hwn.  Mae'n bêl-droediwr gwych ac yntau ond yn 16 mlwydd oed. Mae wedi creu argraff y tymor hwn yn barod! Hefyd, gwahoddwyd Arwyn i Dreialon Dan 18 Pêl Droed Ysgolion Cymru ym Mangor.

## Golff



Llongyfarchiadau i Thomas Edwards, myfyriwr Blwyddyn 12, a enillodd Gwpan Hutton a chafodd ei goroni'n Bencampwr y Pencampwyr!  Da iawn Thomas.



## Rasio Harnais

Llongyfarchiadau i Laura Bevan, myfyriwr Blwyddyn 12,  am ennill gwobr y 'Joci Cyfrwy Gorau' yn rasio Harnais Cymru a'r Gororau.

## Llysgenhadon Aur Chwaraeon – Chwaraeon Powys

Llongyfarchiadau i Lowri Bayliss, Demi Roberts, Louis Davies, a Louis Watkins o Gampws Llandrindod Ysgol Calon Cymru sydd newydd eu penofi'n Llysgenhadon AUR chwaraeon yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid. Ar ôl ymgeisio a mynychu cyfweliad gan syddog chwaraeon Chwaraeon Cymru, Chwaraeon Powys dyfarnwyd y wobr genedlaethol i'r pedwar myfyriwr. Fel llysgennad aur Ysgol Calon Cymru a'r gymuned leol bydd y myfyrwyr yn rhan o fudiad arweinyddiaeth ieuenctid sydd â'r nod o ddatblygu arweinwyr y dyfodol trwy chwaraeon, gweithgaredd corfforol, a chwarae. Bydd y Llysgenhadon Ifanc yn defnyddio eu rôl i  *ysbrydoli, dylanwadu, arwain, a mentora* o fewn ac ar draws addysg a chymunedau, i gysylltu a chefnogi cymdeithas i fod yn iach a gweithgar.

# Pêl Droed Dan18 - Bechgyn

⚽ Cystadleuaeth Pêl Droed 7 bob ochr Bechgyn Dan 18 Crughywel ⚽

Aeth bechgyn Calon Cymru i Ysgol Uwchradd Crughywel i chwarae tair gêm 7 bob ochr. Cafodd y bechgyn ddechrau da gan ennill 4-0 yn erbyn Crughywel A. Roedd yr ail gêm yn erbyn Ysgol Uwchradd Gwernyfed lle cafwyd gornest dda ond roedd Calon Cymru'n gytbwys ac wedi rheoli'r bêl gan orffen trwy ennill 3-2. Roedd y gêm olaf yn erbyn tîm B cryf Crughywel a chafodd y bechgyn gôl gynnar ond atebodd Crughywel gyda gôl hawdd. Ar ddechrau'r ail hanner cysylltodd Harry Bufton â PK Jones a tharodd PK yr ail gôl i'r rhwyd. Y sgòr terfynol oedd 2-1. Perfformiadau gwych gan y bechgyn i gyd.

⚽ Gôl y Dydd: Louis Davies
🏆 Chwaraewr y Dydd: Arwyn Walby



⚽ Gêm Cwpan Pêl Droed Cenedlaethol Bechgyn Dan 18 ⚽

Aeth tîm cyntaf Calon Cymru i chwarae tîm cryf o Ysgol Uwchradd y Trallwng yn rownd gyntaf y cwpan. Chwaraeodd y bechgyn ag angerdd a phenderfyniad, gan ddangos cryfder ac amddiffyniad cryf, ynghŷd â throedio da yng nghanol y cae, ond nid diwrnod y bechgyn oedd hi am iddynt ildio unig gôl y gêm ar 70 munud – munud olaf y gêm. Cafwyd ambell gyfle yn ystod y gêm ond nid oedd Calon Cymru'n medru gorffen. Canlyniad siomedig, ond clod mawr i bob chwaraewr oedd wedi chwarae a gweithio a chynrychioli'r ysgol yn ardderchog. Anffodus ond da iawn fechgyn!

## Pêl Droed Dan 18 Ysgol Calon Cymru - Merched

Gêm Cynghrair Genedlaethol Pêl Droed Merched Cymru Dan U18 yn erbyn Ysgol Uwchradd y Trallwng

Mor hyfryd oedd gweld merched hŷn Calon Cymru'n ymddangos a chwarae mor dda i guro gwrthwynebiad cystadleuol o 4-2. Llongyfarchiadau ferched! Chwaraewyd yn Llandrindod ac roedd yr hanner cyntaf braidd yn ddigyswllt ond yn gyfartal iawn er bod y Trallwng wedi sgorio ar y chwiban hanner amser i arwain 1-0. Ar ddechrau'r ail hanner roedd y merched yn llawn egni ac wedi ffurfio'n well i ddechrau rhoi sawl dilyniant pasio at ei gilydd. Sgoriodd Fenella Price i ddod yn gyfartal a dilynwyd hyn yn gyflym gyda'r gwrthwynebiad yn sgorio gôl yn eu rhwyd eu hunain fel bod Calon Cymru'n arwain 2-1. Cafwyd cysylltiad gwych rhwng Fenella a Lexie Morgan-Rogers a Phoebe James gan greu 2 gôl arall gan Nia Goodwin a Megan Roe. Yr wythnos nesaf bydd y merched yn parhau i chwarae eu gemau cynghrair gydag ymweliad i Ysgol Uwchradd Llanfyllin.



## Alldaith Aur Dug Caeredin

Ym mis Medi, cynhaliwyd alldaith aur Dug caeredin ym Mannau Brycheiniog dros 4 diwrnod. Roedd Maisy Wilcocks, Scarlett Gealy, Amelia Jarvis, Fenella Price a Tanwen Bradley wedi cerdded rhan o Lwybr y Bannau o Landdeusant i Bencelli. Er eu bod wedi wynebu amodau heriol iawn roeddent wedi ymdopi'n dda iawn gyda chitiau, pebyll ac esgidiau cerdded gwlyb.
Byddant yn cwblhau adrannau eraill y wobr ac edrychwn ymlaen at eu dderbyn eu gwobr yn Llundain y flwyddyn nesaf.



## Cynllun Casglu Sbwriel




Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maesyfed yn cyflwyno cynllun Casglu Sbwriel gydag @Lakeside Boathouse, a ddyluniwyd gan ein myfyriwr lleoliad gwaith, Lexie! Ewch i’r llyn i fenthyg codwyr sbwriel a bag ac fe gewch diod poeth am ddim gan y Boathouse. ☕ #SefyllDrosNaturCymru #StandforNatureWales #radnorshire #llandrindodwells

## Hyfforddiant Cymorth Cyntaf

Yn ddiweddar, mae’r myfyrwyr 6ed dosbarth: Nia Thomas, Louis Watkins, Jazmine Jones, Laura Bevan, Lowri Bayliss a Tom Morton wedi ymgymryd ag hyfforddiant Cymorth Cyntaf trwy’r Ffermwyr Ifanc – ac wedi ennill sgil achub bywyd gwerthfawr.

## Cynhadledd Seren

Ar ddechrau mis Hydref roedd Ysgol Calon Cymru wedi croesawu Cynhadledd Seren Conference yng Nghanolfan y Chweched Dosbarth a’r Hwb Cymunedol yn Llandrindod.

Yn bresennol oedd dros 100 o Fyfywyr Seren o Ysgolion Uwchradd Powys – Llanfair Caereinion, y Trallwng, Llanidloes, y Drenewydd, Bro Hyddgen, Gwernyfed, Maesydderwen a Chrughywel.

## Hyfforddiant Dyfarnwyr Pêl Droed FAW Cymru

Yn ddiweddar roedd Arwyn Walby, Laura Bevan a Tom Edwards, myfyrwyr Blwyddyn 12, ymysg un deg saith disgybl o Ysgol Calon Cymru a gafodd eu trwydded Dyfarnwr Pêl Droed Cymdeithas Pêl Droed Cymru mewn cynllun a gyllidwyd gan Chwaraeon Powys. Treuliodd diwtoriaid FAW y bore yn Llandrindod yn asesu'r un deg saith disgybl o Glynyddoedd 10 i 12 ar eu dealltwriaeth am reolau'r gêm. Bu'r un deg saith yn llwyddiannus a byddant nawr yn cael tystysgrif gan Gymdeithas Pêl Droed Cymru. Fe'u cofrestrir yn ddyfarnwyr ar blatfform yr FAW i ddyfarnu gemau Dan 12, Dan 14, a Dan 16 (a bydd myfyrwyr y Chweched Dosbarth yn medru dyfarnu pêl droed hŷn hefyd).

Nid yn unig y bydd y disgyblion nawr yn medru helpu gyda gemau'r ysgol ond, wedi'u cofrestru, byddant hefyd yn medru derbyn gemau clybiau pêl droed y gymuned leol ac yn cael eu talu am eu hamser. Da iawn pawb!

## Dtydd y Cofio

Diolch i Sophie Green yn Llandrindod a Maisy Wilcocks a Fenella Price yn Llanfair-ym-Muallt a gynrychiolodd yr ysgol i osod torch yng nwasanaethau'r ddwy dref.

## MacMillan

Diolch yn fawr iawn i Dîm y Pennaeth ar Gampysau Llanfair-ym-Muallt a Llandrindod am eu hymrwymiad a chyfranogiad yn y digwyddiadau canlynol yn ystod yr hanner tymor cyntaf- sêl Cacennau MacMillan, te a choffi adeg nosweithiau rhieni, Gwerthu Pabïau a Chynllunio Digwyddiad Cymdeithasol y Nadolig.

## I'ch Atgoffa

- 20fed Tachwedd – Diwrnod Gyrfaoedd HSCCC- Canolfan y Chweched Dosbarth.
- 21ain Rhagfyr – Dawns Gymdeithasol y Gaeaf i'r 6ed Dosbarth
- 22ain Rhagfyr – Blwyddyn 13 – Terfyn amser mewnol UCAS i anfon ceisiadau i Brifysgol
- Arholiadau Ffug – w/d 22ain Ionawr 2024 am 2 wythnos – rhaid i fyfyrwyr ddechrau creu nodiadau adolygu ac ymarfer cwestiynau cyn-bapurau o wefan CBAC. Ceir awgrymiadau ar adolygu ar y wefan hon: https://vle.caloncymru.powys.sch.uk/course/view.php?id=521 ac ar Moodle dan lwybrau'r Chweched Dosbarth ac yn TEAMS y chweched dosbarth. Cynhelir yr arholiadau ar gampws cartref y myfyrwyr.
- Disgwylir presenoldeb yng nghyfnod y tiwtor ar ddydd Mercher gwers 3 wythnos 1, os nad yw myfyrwyr yn medru bod yn bresennol rhaid iddynt roi rheswm dilys.
- Ionawr 2024 – arholiadau CHWARAEON BTEC uned 1 ac uned 2
- Tocynnau Dawns y Gaeaf ar gael gan Dîm y Pennaeth o'r w/d 20fed Tachwedd 2023




### Disgwyliadau'r Chweched Dosbarth

**Gwisgwch eich laniard a bathodyn ID**
**Llofnodwch mewn ac allan o gampws ar y daflen llofnodi**
**Gwiriwch e-byst a Teams yn ddyddiol.**
**Ewch i BOB gwers a sesiwn tiwtorial.**
**Dywedwch wrth Mrs Price ac athrawon os ydych yn absennol a gofynnwch am waith i ddal i fyny.**
**Dewch â'ch gliniadur a1 gwefr llawn a lidiau gwefru i bob gwers.**
**Diffoddwch eich ffonau symudol a rhowch hwy heibio pan fyddwch yn gadael ystafelloedd Cyfffredin Canolfan y Chweched Dosbarth a Llanfair-ym-Muallt.**

YCC SIXTH FORM

### Laniardau Chweched Dosbarth Powys

**Gwisgwch eich bathodyn ID a laniard!**

**PAM?**

**I'ch cadw'n ddiogel!**

**Ein blaenoriaeth yw eich diogelwch.** Mae gwisgo eich bathodyn ID a laniard a'u cadw'n weladwy drwy'r amser yn ein helpu i weld pwy ddylai fod yn yr ysgol a phwy na ddylai. **RHAID** i bawb wisgo eu laniardau a bathodynnau ID drwy'r amser ar y campws. Os ydych wedi colli eich laniard, e-bostiwch Mrs Price i roi gwybod iddi.

Anyone not wearing their ID badge and lanyard will be challenged.

**CHWECHED DOSBARTH YCC: Cadw Pawb yn Ddiogel**


# UCAS ac Unifrog:

Dyma'r adeg i ddechrau cwblhau ymchwil ar gyfer cyrsiau prifysgol/prentisiaeth ar gyfer y dyfodol. Cymhellir myfyrwyr i weithio ar hyn a'u datganiadau personol yn ystod gwyliau'r Haf. Byddwn yn defnyddio UNIFROG i ymchwilio cyrsiau yn ogystal ag UCAS.
https://www.unifrog.org/
Bydd rhaid i bob myfyriwr fewngofnodi trwy ddefnyddio e-bost HWB a gofyn am ail-anfon cyfrinair os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes. Gall rieni ymuno i gefnogi eu plentyn trwy ddefnyddio'r cod QR isod a'r cod rhieni hefyd.
https://www.ucas.com/
Rhaid i bob myfyriwr gofrestru cyfrif gydag UCAS. Bydd yr adnoddau i gefnogi ceisiadau ar TEAMS gyda dolen Moodle o wefan yr ysgol / maes y chweched dosbarth.

| | |
|---|---|
| Research | Use the parents/guardians' section of the UCAS website at www.ucas.com/parents. |
| Sign up | Sign up for updates from UCAS, and get everything you need to know about the application process direct to your inbox. |
| Open days | Attend virtual events and open days – you may have a different perspective. |
| Be proactive | Make sure they read everything carefully that is sent to them and don't book family holidays at key times! |

## Parents & guardians, get signed up!

YSGOL CALON CYMRU




Scan this QR code or go to www.unifrog.org/student and click 'Sign in for the first time'
You'll be asked for some details and a Sign up Code. This is what you need:

**<<YCLNParents>>**

After signing up, log into Unifrog using your email address and password via the student sign-in page! https://www.unifrog.org/code

unifrog

# Hysbysebion/I'ch Atgoffa:

## Dyddiadau i'w cofio:

***ABSENOLDEBAU:***
*Rhaid e-bostio absenoldebau at pricel466@hwbcymru.net ac athro'r gwersi a gollwyd yn gofyn iddynt e-bostio gwaith neu ei roi ar Teams.*
Disgwylir i bob myfyriwr wirio eu e-bost a TEAMS yn ddyddiol, o leiaf ar ddechrau a diwedd y dydd o ddewis.

Rhaid i fyfyrwyr wisgo eu laniardau Chwechedd Powys am resymau diogelwch ar y ddau gampws ac wrth fynychu ysgolion eraill.

Rhaid i fyfyrwyr ddod â'u gliniaduron a lidiau gwefru i'r ysgol bob dydd.

Dylai pob myfyriwr ymgysylltu â digwyddiadau ychwanegol a drefnir i'w cefnogi yn eu llwybrau dewisol oherwydd rhoddir gwybodaeth hanfodol i'w cefnogi i ymgeisio i brifysgol, prentisiaeth neu waith wedi iddynt adael yr ysgol.

Disgwylir i bawb fynychu gwersi amserlenedig a digwyddiadau'r chweched dosbarth.

- Adnoddau astudio VESPA a Chanllawiau Dysgu Annibynnol ar TEAMS a Moodle y gellir eu cyrchu trwy wefan yr ysgol.
- Mae canllawiau UCAS ac UNIFROG hefyd ar gael ar TEAMS a Moodle

**Gwybodaeth Cyswllt/Contact Information**

**I gysylltu ag aelod o staff/To contact a member of staff:**
Campws Llandrindod/Llandrindod Wells Campus
Ffôn / Phone 01597 822992
office@caloncymru.powys.sch.uk

Gellir cael newyddion am Ysgol Calon Cymru ar ein gwefan neu, i gael ein newyddion diweddaraf, gallwch ein dilyn hefyd ar Facebook neu Instagram:

www.ysgolcalon.cymru

@yccofficial_